

Dewis Cymru

Cael dewis a chymryd rheolaeth

Ydych chi'n cynnig gwasanaeth i wella llesiant pobl?



Gwefan yw **Dewis Cymru** sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant. Dyma'r lle **GORAU** i bobl fynd am wybodaeth neu gyngor am lesiant – boed eu llesiant eu hun neu lesiant aelod o'r teulu neu ffrind.

Pam dylwn i adio fy ngwybodaeth i at Dewis Cymru?

Llawer o resymau. Os oes gennych chi wasanaeth sy'n helpu pobl gyda'u llesiant, bydd adio'ch manylion at Dewis Cymru yn ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i chi. Yn ei hanfod, os ydych chi'n helpu pobl gyda'u llesiant, mae Dewis Cymru am wybod amdanoch chi a'r hyn rydych **CHI'N** ei wneud.

Mae rhesymau da eraill i'w ddefnyddio Dewis Cymru yn cynnwys:

- ⌘ Mae'n rhad ac am ddim
- ⌘ Mae'n hawdd cofrestru ac adio'ch manylion
- ⌘ Bydd yn eich atgoffa chi bob chwe mis i wirio'ch manylion, felly byddwch chi'n gwybod eu bod yn gyfredol
- ⌘ Mae'n darparu mapiau a chyfarwyddiadau i helpu pobl i ddod o hyd i chi
- ⌘ Mae'n cael ei ddefnyddio gan lawer o asiantaethau cyngor yn barod i gyfeirio pobl at wasanaethau lleol a all eu helpu, felly bydd cael eich gwybodaeth ar Dewis Cymru yn golygu bod modd cyfeirio pobl at eich gwasanaeth.

Felly, beth ydw i'n ei wneud nesaf?

I adio'ch gwybodaeth chi, bydd angen i chi gofrestru. Ewch i www.dewis.cymru a '**Chofrestru**' i greu eich cyfrif. Ar ôl i chi wneud hyn, bydd rhaid '**Mewngofnodi**' i'r safle a mynd i 'Rheoli adnoddau' ac 'Ychwanegu adnoddau' er mwyn adio gwybodaeth am eich gwasanaethau chi.

Gaf i adio gwybodaeth am unrhyw wasanaeth?

Cewch. Rydym ni'n annog pobl i adio gwybodaeth am wasanaethau penodol maen nhw'n eu cynnig. Felly, os ydych chi'n cynnal grŵp cymunedol, cewch roi manylion am ei nodau, ble a phryd mae'n cwrdd, a sut i gysylltu â chi. Os ydych chi'n cynrychioli corff sy'n darparu amrediad o wasanaethau, adiwch y gwasanaethau'n unigol er mwyn i ddefnyddwyr y safle gae dod o hyd i'r gwasanaeth maen nhw'n chwilio amdano.

Sut i gysylltu â ni

Cewch gysylltu â ni drwy:

- ⌘ ddefnyddio'r ddolen 'Cysylltu â ni' ar y wefan
- ⌘ e-bostio help@dewis.cymru



@DewisCymru



/DewisCymru

For a local contact:

Sue Smith, Community Resilience Coordinator,
01269 830061, susansmith@cccpartners.org.uk

